CLWB MYNYDDA CYMRU – CYFARFOD BLYNYDDOL 2026

ADRODDIAD - YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef ym misoedd Ionawr, Mai a Medi, i gyd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal ein cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac mae'n caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

A – GWAITH Y PWYLLGOR

Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, ceir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod a bydd y Trysorydd hefyd yn cyflwyno adroddiad am sefyllfa ariannol y Clwb a mantolen i'r Cyfarfod Blynyddol.

Hefyd mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i'r materion canlynol yn ystod y flwyddyn

1. CERDYN CYSWLLT MEWN ARGYFWNG

Yng nghyfarfod mis Ionawr penderfynodd y Pwyllgor sefydlu'r drefn o gael cerdyn cyswllt ar gyfer aelodau i nodi eu manylion cyswllt mewn argyfwng ac unrhyw gyflwr meddygol perthnasol. Archebwyd cyflewnad o'r cardiau hyn ynghyd ag amlenni plastig pwrpasol i'w gwarchod rhag yr elfennau. Trefnwyd wedyn i'w dosbarthu i bob aelod gyda cherdyn aelodaeth Clwb ac fe ofynnir i aelodau ei gario ym mhoced dop y sach gerdded fel ei fod wrth law pe byddai argyfwng ac angen y wybodaeth berthnasol.

2. POLISI RHEOLI RISG SGRAMBLO A/NEU DRINGO HAWDD

Hefyd yn mis Ionawr fe fabwysiadwyd polisi rheoli risg sgramblo a/neu dringo hawdd gan y Pwyllgor sydd i'w weld ar wefan y Clwb.

3. CYFARFOD BLYNYDDOL

Mater arall sydd wedi cael sylw eleni yw trefn y Cyfarfod Blynyddol. Cododd hyn yn sgil y ffaith fod y nifer yn mynychu'r Cyfarfod llynedd yn isel ac wedi bod yn lleihau yn gyffredinol dros y blynyddoedd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi sylw i hyn ac ystyried a fyddai modd cynyddu'r presenoldeb. Fel rhan o'r broses yma gofynnwyd i Paula Roberts drefnu holiadur i holi barn yr aelodau ac i geisio adnabod ffyrdd o gynyddu'r nifer oedd yn mynychu.

Ar ôl derbyn adroddiad Paula a rhoi ystyriaeth i'r mater fe benderfynodd y Pwyllgor weithredu ar y llinellau isod:

Cytunwyd

i. heblaw am (ii) isod, parhau â'r trefniadau arferol ar gyfer cyfarfod 2026 a'i gynnal yng Ngwesty'r Royal Oak ar nos Sadwrn, 21 Tachwedd 2026 yn ôl y drefn arferol heb siaradwr gwadd
ii. y dylid estyn gwahoddiad i aelodau ymuno â Chyfarfod Blynyddol 2026 drwy gyfrwng Zoom pe dymunent
iii. hysbysu'r Cyfarfod Blynyddol fod y Pwyllgor yn argymell arbrofi gyda'r trefniadau canlynol ar gyfer 2027:

A. bod y Cyfarfod Blynyddol yn unig yn cael ei gynnal ar wahân drwy gyfrwng Zoom

B. bod gweithgaredd cymdeithasol yn cael ei drefnu gan y Clwb ar wahân i'r Cyfarfod Blynyddol ar seiliau hyblyg a allai gynnwys trefnu penwythnos o weithgareddau .
C. nodi y gellid bod yn hyblyg ynglŷn â pha adeg ar y flwyddyn i gynnal y digwyddiadau a nodir yn A. a B. uchod.

Bydd angen i'r Cyfarod Blynyddol felly benderfynu os am dderbyn argymhellion y Pwyllgor ar gyfer sut i weithredu trefniadau'r Cyfarfod Blynyddol ar gyfer 2027.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Paula am ei holl waith ar y arolwg.

4. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2026

Un o weithgareddau blynyddol y Pwyllgor yw gwneud y trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Eleni fe draddododd Dwynwen Pennant Ddarlith Goffa Llew Gwent am eu hanturiaethau yn cerdded o Munchen i Venezia yn ystod haf 2025, ac fe arweiniodd Richard Mitchley Daith Goffa Gareth Pierce ar y dydd Mercher, gyda nifer sylweddol o aelodau yn ymuno. Rydym yn ddiolchgar iawn i Dwynwen a Richard ac i bawb arall fu ynglŷn â'r trefniadau.

5. MATERION Y CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG

Yng nghyfarfod mis Medi fe ymunodd Eben Muse, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd (Cymru) gyda'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) â ni a bu'n sôn am waith y Cyngor. Cafwyd sgwrs adeiladol a phositif efo Eben ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhywbeth a fydd yn parhau i'r dyfodol a'i rôl ef ynddo.

Un peth y tynwyd sylw ato ar y noson oedd, gan fod y Clwb yn aelod o'r CMP, ei bod yn agored i'n aelodau fynychu pwyllgorau rhanbarthol. Mae Steve Williams wedi bod yn mynychu eu cyfarfodyd yn y gogledd ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag , yn gyffredinol , ychydig o gynrychiolwyr Cymraeg eu hiaith sy'n eu mynychu a theimlid y byddai'n dda o beth pe byddai mwy o aelodau'r Clwb yn eu mynychu i geisio hybu mwy o naws Gymraeg oddi fewn i'r corff a hyrwyddo statws yr iaith ynddo.

6. MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

Hefyd mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhoi sylw i berthynas y Clwb a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Yn hanesyddol mae'r Clwb wedi bod yn aelod o'r Bartneriaeth ac yn talu tâl aelodaeth iddynt. Fel rhan o'r aelodaeth fe dderbyniwyd swm o arian a oedd ar gael i ddarparu hyfforddiant i aelodau a fyddai'n cynorthwyo gweithgareddau'r Clwb megis cyrsiau cymorth cyntaf. Fodd bynnag cafwyd gwybod fod y Bartneriaeth wedi gwneud newidiadu sylweddol i'r ffordd y maent yn dosbarthu cymorth i glybiau. Yn sgil hyn fe benderfynodd y Pwyllgor na ddylid ymaelodi â'r Bartneriaeth Awyr Agored yn 2026 ac yn hytrach y dylid defnyddio'r arian tâl aelodaeth i helpu i ddarparu cyrsiau cymorth cyntaf i aelodau.

7. AMGUEDDFA MYNYDDA

Ymatebodd y Pwyllgor i awgrym Iolo ap Gwynn y dylid cael amgueddfa yn olrhain hanes mynydda yng Nghymru. Roedd hyn yn sgil y ffaith fod fod Eryri a Chymru wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad mynydda, ac mai da o beth fyddai cofnodi a dathlu hyn. Gan fod safle gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Llanberis (yr Amgueddfa Lechi) yng nghanol Eryri, fe benderfynwyd cysylltu â hwy fel cam cyntaf i holi a fyddent yn fodlon clustnodi gofod/ystafell ar gyfer olrhain hanes mynydda.

Fe gysylltwyd â'r Amgueddfa Genedlaethol a chafwyd ymateb nad oedd ganddynt ofod ar gyfer hyn yn yr amgueddfa yn Llanberis, ond y byddent yn hapus i geisio cefnogi drwy gyfeirio pobl at unrhyw wybodaeth allweddol ynglŷn â straeon a lleoliadau. Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor ysytyried a oes modd arall o wireddu'r syniad.

Os oes diddordeb gennych mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol i'w gweld ar wefan y Clwb, gweler y ddolen isod:

http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

B. AELODAETH Y PWYLLGOR

1. Ethol Is-Gadeirydd

Mae cyfnod Elen fel Cadeiydd yn dod i ben eleni ac felly bydd Keith Roberts, yr Is-gadeirydd presennol, yn cymryd y gadair. Bydd angen felly i'r Cyfarfod Blynyddol ethol Is-gadeirydd newydd.

2. Aelodaeth y Pwyllgor

Bydd angen i'r Cyfarfod Blynyddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2027. Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor fel a ganlyn:

Elen Huws – Cadeirydd
Keith Roberts – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts– Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dewi Hughes
Dwynwen Pennant
Gethin Rowlands
Eurig James
Steve Williams
Erwyn Jones
Mathew Williams

Fel y nodwyd eisoes bydd cyfnod Elen fel Cadeiydd yn dod i ben eleni ac felly bydd Keith Roberts yn cymryd ei lle a bydd Is-gadeirydd newydd yn ei le ef.

Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr)yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi gwasanaethu hiraf, sef eleni

Dilys Phillips
Dewi Hughes
Elen Huws
Dwynwen Pennant

Bydd angen i'r Cyfarfod hefyd gadarnhau swyddogion y Clwb ar gyfer 2026. Nodir y rhai presennol uchod.

Fe adroddir ar y sefyllfa ddiweddaraf ar aelodaeth gyffredinol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol. **Mae'n agored i unrhyw aelod wasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol**.

Llawer o ddiolch am eich sylw a mawr obeithio y cewch i gyd gyfle i droedio mynyddoedd Cymru a thu hwnt (ar weithgareddau'r Clwb ar adegau gobeithio) dros y flwyddyn i ddod.

Iolo P Roberts
Ysgrifennydd Cyffredinol
Tachwedd 2026